Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Ward Tylluan, Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru

# Dyddiad y gweithgarwch: 12 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mehefin 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-515-7

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Tylluan, Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Lleolir yr ysbyty plant ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Mae Ward Tylluan yn cynnwys naw gwely ar gyfer achosion llawdriniaeth ddydd a 28 o welyau ar gyfer gofal llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd ac arolygu yma.

Gwnaethom siarad â phrif nyrs ac uwch-nyrs y ward ar 12 Mai 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau yn wyneb COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Canlyniadau'r archwiliad atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd mwyaf diweddar

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd prif nyrs y ward y newidiadau a wnaed i amgylchedd y ward er mwyn helpu i wahanu a rheoli cleifion yn ddiogel ers dechrau COVID-19. Roedd plant a oedd yn mynychu ar gyfer llawdriniaeth a gynlluniwyd yn cael gofal mewn ardal o'r ward ar wahân i blant a oedd yn mynychu ar gyfer llawdriniaeth frys. Y rheswm dros hyn oedd na fu modd ynysu plant a dderbyniwyd i'r ward am lawdriniaeth frys, na chadarnhau eu statws o ran COVID-19 cyn iddynt gyrraedd, bob amser. Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion a oedd wedi cael canlyniad negatif i brawf COVID-19 oedd yn cael llawdriniaeth yn theatrau'r ysbyty plant. Roedd cleifion yr oedd angen llawdriniaeth frys arnynt a oedd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 yn cael eu trosglwyddo i theatrau prif Ysbyty Athrofaol Cymru.

Dywedwyd wrthym fod pob un o ardaloedd y ward yn ddigon mawr i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol diogel rhwng y gwelyau. Mae ardaloedd o'r ward, megis yr ystafelloedd chwarae a'r ardaloedd aros, wedi cael eu cau yn ystod y pandemig er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Yn lle hynny, aed â theganau i'r plant chwarae â nhw yn eu gwelyau. Mae mesurau hefyd wedi'u rhoi ar waith i helpu i ddiogelu'r staff; mae'r ystafelloedd cyfarfod wedi cael eu troi'n ystafelloedd staff ychwanegol er mwyn galluogi'r staff i gymryd seibiannau'n ddiogel, a chafodd hyfforddiant ar-lein ei gyflwyno yn lle hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rhoddwyd cyfyngiadau ar ymweliadau yn ystod y pandemig. Dim ond un rhiant sydd wedi cael ymweld â'i blentyn ar y ward, ac nid oes yr un rhiant wedi cael aros dros nos. Lle mae plant wedi aros ar y ward am gyfnod hwy na thridiau, mae'r rhieni wedi cael ymweld â nhw am yn ail, er mwyn sicrhau bod y ddau ohonynt yn gallu treulio amser gyda'u plentyn ar wahân. Mae ymwelwyr wedi cael eu harchwilio am symptomau COVID-19 cyn iddynt fynd i mewn i'r ward. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi darparu iPads i'r plant er mwyn eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau o bell.

Gwnaethom drafod y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser. Mae llenni preifat o amgylch pob gwely ac mae ystafelloedd triniaeth ar wahân ar gael ar gyfer gofal personol. Mae ystafelloedd ar gael i'r staff siarad yn breifat â phlant a'u rhieni os oes angen. Lle y bo'n bosibl, caiff plant hŷn eu gosod mewn ciwbiclau â chyfleusterau en-suite, er mwyn helpu i ddiogelu eu hurddas a'u preifatrwydd. Dywedwyd wrthym am fenter gadarnhaol ddiweddar lle roedd elusen Ysbyty Arch Noa i Blant wedi prynu setiau pyjamas a gwisg felcro i blant ar y ward. Mae'r wisg yn sicrhau mai dim ond y rhan o'r corff y mae angen i'r llawfeddyg gael mynediad iddi sydd i'w gweld.

Cawsom ddata ar nifer y briwiau pwyso a gafwyd wrth gael gofal iechyd. Gwelsom fod nifer y briwiau pwyso o'r fath yn isel, ac mai dim ond tri achos a fu ar y ward dros y 12 mis diwethaf.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod tîm iechyd a diogelwch y bwrdd iechyd yn cynnal archwiliadau amgylcheddol rheolaidd ar y ward. Fodd bynnag, cawsom gopi o restr wirio ar gyfer archwiliad iechyd a diogelwch yn y gweithle, a gwelsom mai ym mis Gorffennaf 2019 y cafodd ei chwblhau ddiwethaf ar y ward. Er bod y rhestr wirio yn gynhwysfawr, ni chawsom sicrwydd bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddigon aml i nodi unrhyw broblemau mewn modd amserol. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff, a gadarnhaodd na chynhaliwyd archwiliad yn 2020 o ganlyniad i'r pandemig. Yn dilyn y gwiriad ansawdd, cawsom dystiolaeth bod staff y ward wedi cwblhau rhestr wirio newydd ers hynny. Hefyd, cadarnhaodd prif nyrs y ward y byddai'n trefnu i'r tîm iechyd a diogelwch gynnal ei archwiliad ei hun ar y ward cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i Covid-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd prif nyrs y ward y mesurau a oedd ar waith i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ar y ward. Roedd yn ofynnol i blant yr oedd disgwyl iddynt gael llawdriniaeth wedi'i chynllunio gael prawf COVID-19 72 awr cyn eu llawdriniaeth, ac yna hunanynysu gydag

aelodau o’u teulu cyn dod i’r ysbyty. Roedd 11 o giwbiclau ar gael ar y ward i ynysu unrhyw gleifion y nodwyd eu bod wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19. Cynhaliwyd cyfarfodydd dyddiol â’r staff er mwyn monitro statws y cleifion o ran COVID-19, adolygu gofynion Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a rhannu negeseuon atgoffa am bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o’r ward. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw frigiadau o achosion o COVID-19 na heintiau eraill ar y ward yn ystod y pandemig.

Cawsom ystadegau ar hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff, a gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn uchel ar gyfer pob aelod o’r staff sy’n gweithio ar y ward. Dywedodd prif nyrs y ward wrthym am y trefniadau ar gyfer PPE ar y ward. Mae'r staff wedi gwylio fideos ar y ffordd gywir o wisgo a diosg PPE yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae posteri hefyd wedi’u harddangos ym mhob rhan o’r ward i ddangos faint o PPE y dylid ei wisgo. Mae pob aelod o’r staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masg FFP3[1] i’w wisgo wrth ofalu am blant yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Caiff cyflenwadau PPE eu harchwilio ddwywaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod digon ar gael.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o ganllawiau electronig ar atal a rheoli heintiau a luniwyd gan y Bwrdd Iechyd. Roedd canllawiau cenedlaethol ar atal a rheoli heintiau, megis gwybodaeth a luniwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd, ar gael hefyd. Roedd dolenni i gyngor a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar COVID-19 ar gael ar fewnrwyd y staff. Dywedwyd wrthym fod diweddariadau dyddiol ar COVID-19 hefyd wedi cael eu hanfon dros e-bost er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Disgrifiodd prif nyrs y ward y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal ar y ward. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a hylif diheintio dwylo ar gael wrth y fynedfa ac ym mhob rhan o'r ward. Mae posteri hefyd wedi'u gosod wrth y sinciau er mwyn atgoffa'r staff a hyrwyddo technegau golchi dwylo da. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ddilyn y polisi 'noeth o dan y penelin',[2] sydd wedi'i arddangos wrth fynedfa'r ward. Gwelsom fod archwiliadau hylendid dwylo misol wedi'u cynnal er mwyn monitro cydymffurfiaeth y staff.

Gwelsom fod rhestr wirio COVID-19 wedi cael ei chwblhau ar y ward ym mis Rhagfyr 2020. Roedd hon yn archwilio cydymffurfiaeth ar y ward mewn meysydd megis PPE, hylendid dwylo a glendid y ward. Dywedwyd wrthym fod y ward wedi cael ei dewis yn ddiweddar i gymryd rhan mewn treial sydd â'r nod o roi mwy o reolaeth i uwch-aelodau o staff y ward mewn perthynas â chynnal gweithgareddau archwilio. Esboniodd prif nyrs y ward fod y bwrdd iechyd wedi rhoi iPads i'r ward, a bod archwiliadau atal a rheoli heintiau bob pythefnos wedi'u

[1] Masgiau wyneb sy'n hidlo yw masgiau wyneb FFP3. Cânt eu defnyddio mewn amgylchiadau penodol yn dilyn asesiad risg ac yn unol â chanllawiau ar atal a rheoli heintiau. Rhaid i'r staff gael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithlon ag sy'n ofynnol.

[2] Yr arfer gorau yw bod staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal y cleifion yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

cyflwyno i'w cynnal ar y ward. Gwnaethom groesawu hyn fel menter gadarnhaol i helpu i fonitro cydymffurfiaeth a nodi gwelliannau.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom edrych ar yr archwiliadau hylendid dwylo misol a gynhaliwyd ar y ward. Yn galonogol, gwelsom fod y ward wedi cyflawni cyfradd gydymffurfio o 100 y cant yn bennaf dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, ym mhob achos lle y nodwyd materion, gwelsom mai'r ffaith bod meddygon yn gwisgo watshis yn yr ardaloedd clinigol oedd yn gyfrifol am hynny. Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd atgoffa meddygon o'u cyfrifoldeb i ddilyn y polisi noeth o dan y penelin pan fyddant yn gweld cleifion ar y ward.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Data ar achosion o salwch ymhlith y staff a swyddi gwag
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i helpu i sicrhau bod cymysgedd priodol o sgiliau a niferoedd digonol o staff ar y ward yn ystod pob sifft. Defnyddir 'Rosterpro' fel adnodd electronig i drefnu'r rotas staff yn seiliedig ar ddewisiadau gweithio'r staff ac absenoldebau staff, megis gwyliau neu absenoldeb oherwydd salwch. Caiff pob rota ei chadarnhau gan uwch-aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod y cymysgedd sgiliau priodol ar bob sifft. Caiff materion posibl o ran rheoli gwelyau, a'r lefelau o ofal sydd eu hangen ar gleifion, eu hasesu'n ddyddiol. Caiff lefelau staffio eu haddasu i adlewyrchu cyfnodau mwy prysur, neu i ofalu am gleifion ag anghenion uwch. Dywedwyd wrthym am y paratoadau a wnaed gan uwch-aelodau o'r staff i fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016[3], a fydd yn gymwys i'r ward o fis Hydref 2021 ymlaen. Cynhaliwyd ymarfer i adolygu lefelau staffio gan ddefnyddio proses driongli Addysg a Gwella Iechyd Cymru. [4] Dywedwyd wrthym na chafodd unrhyw faterion posibl eu nodi gan yr ymarfer, a bod y ward wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd.

[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/enacted/welsh
[4] https://aagic.gig.cymru/rhaglenni/rhaglen-staff-nyrsio-cymru-gyfan/yr-ymagwedd-driongli/

Disgrifiodd prif nyrs y ward y cyfleoedd sydd ar gael i'r staff gael hyfforddiant perthnasol. Caiff amser ei neilltuo i'r staff yn ystod eu sifftiau i gwblhau hyfforddiant a chynnal eu cymwyseddau. Mae addysgwr ymarfer amser llawn yn gweithio ar y ward er mwyn nodi anghenion dysgu'r staff, a'u diwallu. Gall y staff weithio mewn rhannau gwahanol o'r ysbyty plant megis yr uned gofal dwys i'r newydd-anedig er mwyn meithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i atal yn ystod y pandemig. Er gwaethaf yr heriau hyn, gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiwedd mis Mawrth 2021 yn gymharol uchel, sef 83 y cant.

Dywedwyd wrthym fod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu ffurfiol ar y ward. Mae hyn yn cynnwys chwe wythnos o amser ychwanegol[5] i ymgyfarwyddo â'r ward a dysgu ac ymarfer sgiliau'n ddiogel. Neilltuir cyfaill i bob aelod newydd o'r staff, a all ateb unrhyw gwestiynau a all fod ganddo, ynghyd ag uwch-aelod o'r staff fel mentor er mwyn rhoi cymorth a goruchwyliaeth.

Dywedodd prif nyrs y ward wrthym am y mesurau a roddwyd ar waith i roi cymorth ychwanegol i'r staff yn ystod y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd galwedigaethol a chwnsela'r bwrdd iechyd, yn ogystal â'r cymorth a roddir gan elusen yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod staff y ward hefyd wedi bod yn dda iawn am gefnogi ei gilydd.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, er mwyn helpu i ymgorffori cydraddoldeb a hawliau ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Nododd prif nyrs y ward bwysigrwydd siarad â'r plant a'u teuluoedd i nodi a deall eu hanghenion er mwyn helpu i roi'r lefel gywir o gymorth. Mae hyn wedi bod yn fwy heriol yn ystod y cyfyngiadau ar ymweliadau, a dywedwyd wrthym fod asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf y plentyn.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom mai'r gyfradd cwblhau ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau) ar gyfer pob aelod o staff y ward ar ddiwedd mis Mawrth 2021 oedd 66 y cant. Mae PADRau yn bwysig er mwyn i'r staff drafod amcanion a nodi cyfleoedd dysgu a meysydd i'w gwella. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob PADR sy'n weddill ei gwblhau fel blaenoriaeth.

[5] Yn ystod y cyfnod hwn, ni chaiff y staff eu cyfrif wrth ystyried faint o staff sydd eu hangen i roi gofal diogel ac effeithiol ar y ward.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r meddygon o'u cyfrifoldeb i ddilyn y polisi noeth o dan y penelin pan fyddant yn gweld cleifion ar y ward. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol i anfon e-bost at y staff meddygol i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau i ddilyn y polisi noeth o dan y penelin yn ardal glinigol y ward. Mae staff y ward wedi'u grymuso i herio achosion o ddiffyg cydymffurfio.<br><br>Cynnal archwiliad o gydymffurfiaeth | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br><br>Rheolwr y Ward | Cwblhawyd Mai 2021<br><br>Gorffennaf 2021 |
| 2 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob PADR sy'n weddill ei gwblhau fel blaenoriaeth. | 7.1 Y Gweithlu | Mae'r aelodau o'r staff y mae angen iddynt gael PADR wedi'u nodi ac maent wedi cael apwyntiadau i'w cwblhau yn ystod y tri mis nesaf. Cysylltwyd â nhw yn unigol hefyd ac maent wedi'u hannog i'w cwblhau'n gynt os oes modd. | Rheolwr y Ward | Medi 2021 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Tina Freeman, Rheolwr y Ward

Dyddiad: 07 Mehefin 2021